

MANYLEB AR GYFER GWEITHREDU RHAGLEN CYMRAEG I BLANT

CONTRACT C12 2015/2016

Cefndir

Mae *iaith fyw: iaith byw*, Strategaeth y Gymraeg 2012-17 yn anelu at weld cynnydd yn nifer y bobl sy'n gallu siarad yr iaith, ac sy'n ei defnyddio. Mae annog a chefnogi defnydd y Gymraeg o fewn teuluoedd yn un o flaenoriaethau allweddol Llywodraeth Cymru er mwyn diogelu dyfodol y Gymraeg.

Mae trosglwyddo'r iaith o genhedlaeth i genhedlaeth, yn ogystal â chynyddu addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru. Er mwyn galluogi cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg mae angen i'r Gymraeg fod yn iaith y cartref i gynifer o blant â phosibl. Mae corff o dystiolaeth sy'n awgrymu bod y Gymraeg yn llai tebygol o gael ei defnyddio o fewn y teulu lle nad yw ond un rhiant/gofalwr yn siarad Cymraeg. Mae arbenigwyr yn y maes cynllunio ieithyddol hefyd yn pwysleisio fod trosglwyddiad iaith llwyddiannus yn un o gonglfeini cynllunio iaith llwyddiannus.

Yn ôl ffigurau Cyfrifiad 2011 cynyddodd y gyfradd drosglwyddo ar gyfer aelwydydd pâr, lle gallai un oedolyn siarad Cymraeg, o 40% yn 2001 i 45% yn 2011. Yn ôl ffigurau Cyfrifiad 2011, arhosodd y gyfradd drosglwyddo ar gyfer aelwydydd lle gallai'r ddau oedolyn siarad Cymraeg yn sefydlog ar oddeutu 82% Mae buddsoddiad helaeth wedi'i roi i'r maes trosglwyddiad iaith dros y blynyddoedd, drwy gynllun Twf, sef cynllun i geisio annog rhieni/gofalwyr Cymraeg eu hiaith i siarad Cymraeg â'u plant. Er y cynnydd a welwyd o safbwynt aelwydydd lle gallai un oedolyn siarad Cymraeg, mae trosglwyddiad iaith ac ymdrechion sy'n mynd i'r afael â'r maes hwn yn allweddol i sicrhau cynnydd yn y nifer o siaradwyr Cymraeg, ac bydd yn un o flaenoriaethau rhaglen Cymraeg i Blant . Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi bod yn rhoi pwyslais cynyddol ar geisio cynnig arlwy o raglenni sy'n cefnogi teuluoedd o gefndiroedd ieithyddol amrywiol er mwyn hybu eu defnydd o'r iaith a defnydd eu plant o'r Gymraeg, yn ogystal ag annog teuluoedd i ddewis y Gymraeg i'w plant.

Ochr yn ochr â hyn, mae gan y system addysg rôl allweddol i'w chwarae i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg, ac mae Strategaeth Addysg cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru yn pwysleisio hyn. Yn benodol berthnasol i'r maes hwn, cyfeiria'r Strategaeth at wella'r broses cynllunio darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y cyfnodau addysg cyn statudol yn ogystal â meithrin ac atgyfnerthu sgiliau Cymraeg o fewn teuluoedd.

Mae ymyraethau cyfredol Llywodraeth Cymru yn y maes hwn yn eu cyfanrwydd yn cynnwys prosesau cynllunio, dyfarnu grantiau a chytundebau sy'n mynd i'r afael â'r canlynol;

- Trosglwyddo iaith a chynyddu nifer y teuluoedd lle caiff y Gymraeg ei defnyddio fel y brif iaith
- annog a chefnogi defnydd o'r Gymraeg o fewn teuluoedd, gan gynnwys mentrau sy'n ceisio cynyddu hyder rhieni/gofalwyr i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd
- Gwasanaethau ar gyfer teuluoedd, gan sicrhau bod modd iddynt fanteisio ar wasanaethau cyfrwng Cymraeg

- Cefnogaeth ar gyfer teuluoedd nad ydynt yn siarad Cymraeg ond sy'n anfon eu plant drwy addysg cyfrwng Cymraeg
- Cefnogaeth i fudiadau blynyddoedd cynnar a gofal plant er mwyn ehangu gofal plant a darpariaeth cyn ysgol cyfrwng Cymraeg.
- Datblygu a gweithredu Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg. Dyma yw prif offeryn Llywodraeth Cymru ar gyfer monitro'r ffordd y bydd awdurdodau lleol yn ymateb i, a chyfrannu at weithredu nodau'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg.

Felly mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi sylw i ddatblygiadau polisi, deddfwriaeth berthnasol ac ymyraethau penodol sydd wedi cyfrannu tuag at greu llwybrau lle gall rhieni fanteisio ar gefnogaeth i'w galluogi i wneud defnydd ehangach o'r Gymraeg gyda'u plant ac o fewn teuluoedd.

Y cyfnod nesaf

Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod pwysigrwydd y cartref a'r dylanwadau amrywiol sydd ar rieni wrth fagu plant a dewis ysgol ar eu cyfer. Rydym yn awyddus i weld defnydd ehangach o'r Gymraeg o fewn teuluoedd gan gynnwys cynyddu nifer y rhieni sy'n trosglwyddo'r iaith i'w plant, cynyddu'r nifer sy'n ei defnyddio, yn ogystal â chynorthwyo rhieni o bob cefndir ieithyddol i ddewis gofal plant ac wedyn addysg Gymraeg.

Mae'n bwysig sicrhau bod teuluoedd yn ymwybodol o'r cymorth sydd ar gael i hybu eu defnydd nhw, ynghyd â defnydd eu plant, o'r Gymraeg. Mae teuluoedd angen amrywiaeth o ddulliau i gefnogi defnydd o'r iaith er mwyn gwneud y Gymraeg yn rhan annatod o'u bywydau bob dydd. Dros y cyfnod nesaf, rydym am sicrhau bod ein holl gynlluniau ac ymdrechion yn y maes yn cyd-blethu â'i gilydd o fewn un fframwaith clir i gefnogi teuluoedd.

Yn ymarferol, golyga hyn fod gofyn i bob darpariaeth a gweithgarwch a gynigir dan ymbarél Llywodraeth Cymru gydweithio o fewn y maes blynyddoedd cynnar a'r gyfundrefn addysg er mwyn sicrhau ymdrech gydlynus, gan rhoi negeseuon pwrpasol, amserol a chyson sy'n ategu ei gilydd i deuluoedd er mwyn eu cefnogi i drosglwyddo'r Gymraeg, defnyddio'r Gymraeg, a'u cynorthwyo ar hyd y daith o ddewis addysg cyfrwng Cymraeg o'r cychwyn cyntaf.

O'r herwydd, mae'r fanyleb hon yn cyfeirio at un rhaglen newydd genedlaethol, sef Cymraeg i Blant, a fydd yn dwyn ynghyd nifer o amcanion ein rhaglenni presennol. Bydd hyn yn sicrhau bod ein holl gynlluniau ac ymdrechion yn y maes yn cyd-blethu er mwyn cynnig rhaglen a fydd yn cefnogi teuluoedd i fyw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg neu eu cefnogi i ddewis addysg Gymraeg i'w plant.

Bydd y rhaglen yn dod yn ran o frand Cymraeg i Blant, sydd yn estyniad ar y brand "Cymraeg". Trwy dynnu ein holl weithgareddau yn y maes dan un brand cyffredin, y nod yw creu eglurder a chysondeb wrth farchnata negeseuon, gwasanaethau a darpariaeth i'r grŵp targed penodol hwn. O safbwynt yr elfen trosglwyddiad iaith o'r rhaglen hon, byddwn yn parhau i ddefnyddio enw'r rhaglen gyffredol sy'n gweithredu'n y maes hwn, sef Twf. Byddwn fodd bynnag, yn symud yn raddol tuag at rhoi'r gorau i ddefnyddio logo a brand cyffredol Twf a'i ymgorffori o fewn brand Cymraeg i Blant.

Fel rhan o Fframwaith Gwerthuso Llywodraeth Cymru ar gyfer *iaith fyw: iaith byw*, bwriedir i astudiaeth ymchwil gael ei chomisiynu gan Lywodraeth Cymru a'i chwblhau erbyn Ebrill 2017. Nod yr astudiaeth arfaethedig fydd casglu tystiolaeth i gynorthwyo datblygiad polisi'r dyfodol mewn perthynas â chefnogi teuluoedd i drosglwyddo'r Gymraeg. Bydd disgwyl i'r contractwyr llwyddiannus ar gyfer *Cymraeg i Blant* fod yn barod i gydweithio gyda'r ymchwilwyr pe byddai'r angen yn codi, a hefyd i fod yn hyblyg i dderbyn unrhyw newidiadau i gyfeiriad polisi a allai gael eu gweithredu yn sgil yr ymchwil.

Gofynion

Rydym yn dymuno gweld un sefydliad yn cymryd trosolwg dros y gwaith hwn, ond rydym yn croesawu ceisiadau gan bartneriaeth o sefydliadau. Croesewir hefyd geisiadau gan sefydliadau sy'n cynnwys elfennau o is-contractio neu ddefnyddio arbenigedd sefydliadau eraill er mwyn gweithredu rhai o amcanion y cynllun, neu i weithredu mewn rhai ardaloedd penodol.

Bydd gwerth y cytundeb hwn hyd at £500,000 y flwyddyn (i gynnwys TAW). Bydd unrhyw geisiadau dros y swm hwn yn cael eu diystyru.

Prif amcanion y rhaglen

- Cefnogi rhieni a darpar rieni i gyflwyno a defnyddio'r Gymraeg ar yr aelwyd.
- Cefnogi rhieni i alluogi datblygiad ieithyddol eu plant yn gymdeithasol.
- Cefnogi rhieni i alluogi datblygiad ieithyddol eu plant yn addysgiadol.

Amcanion penodol

- Datblygu proses o adnabod a chyrraedd rhieni a fyddai'n elwa ar gefnogaeth y rhaglen.
- Datblygu camau pendant a phrosesau pwrpasol er mwyn rhannu gwybodaeth gyda rhieni.
- Sefydlu rhaglen o gefnogaeth ddwys i rieni, yn seiliedig ar anghenion penodol, gan sicrhau bod y rhieni yn ymwybodol o'r gefnogaeth fydd ar gael iddynt y tu hwnt i'r prosiect hwn.
- Sefydlu trefniadau i weithio mewn partneriaeth gyda mudiadau a chyrff perthnasol eraill i gyflawni'r amcanion.
- Blaenoriaethu ardaloedd lle y gellid cynnig cefnogaeth i rieni sydd hefyd yn medru manteisio ar gefnogaeth Dechrau'n Deg.
- Cefnogi amcanion Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg yr Awdurdodau Lleol.

Bydd mesuryddion perfformiad yn cael eu gosod ynghlwm â phob un o'r amcanion penodol uchod, ac yn cael eu hasesu drwy gydol y contract.

Grŵp targed

- Fel yr adlewyrchir ym mhrif amcanion y cynllun, bydd y rhaglen hon yn targedu rhieni o gefndiroedd ieithyddol amrywiol yn ogystal a'u targedu yn ystod cyfnodau gwahanol o safbwynt oedran eu plant. Disgwylir felly i'r contractwr ddarparu cefnogaeth ar gyfer darpar rieni hyd at ddiwedd y Cyfnod Sylfaen (hyd at 7 oed).

Ardaloedd

- Er mwyn sicrhau aliniad effeithiol rhwng Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg yr awdurdodau lleol a rhaglenni a phartneriaid sy'n gweithredu'n sirol, disgwylir i geisiadau ddilyn ffiniau Awdurdodau Lleol. Croesewir strwythurau traws-sirol neu ranbarthol o ran patrwm gwaith y cynllun.
- Disgwylir i geisiadau gynnwys dadansoddiad /ymarferiad mapio i adnabod ardaloedd sy'n arddangos gwendidau o ran diffyg trosglwyddiad iaith ac ardaloedd lle bo gostyngiad yn nifer y plant sydd mewn addysg Gymraeg. Er bod hwn yn gynllun cenedlaethol bydd angen targedu a blaenoriaethu datblygiadau. (disgwylir i ymgeiswyr ddefnyddio'r penawdau sydd wedi eu hamlinellu isod).
- Er mwyn gweithio'n strategol a chefnogi meysydd polisi eraill o bwys dylid targedu ardaloedd lle y gellid cynnig cefnogaeth i rieni sydd hefyd yn medru manteisio ar gefnogaeth Dechrau'n Deg
- Ni fydd pob ardal o Gymru o anghenraid yn rhan o'r rhaglen hon. Yn ddibynnol ar gostau, byddwn yn blaenoriaethu'r ardaloedd hynny ble gwelir yr angen mwyaf i weithredu, ar sail dadansoddiadau ymgeiswyr, a ffynonellau amrywiol arall.

Ymgysylltu gyda'r cyhoedd

- Llywodraeth Cymru fydd yn gyfrifol am ddatblygu strategaeth ymgysylltu a'r cyhoedd yng nghyd-destun rhaglen Cymraeg i Blant. Bydd yr wybodaeth ynglŷn a'r rhaglen hon wedi ei leoli ar wefan 'Cymraeg' Llywodraeth Cymru, o dan yr adran Dysgu a disgwylir i'r contractwr weithio'n agos â Uned Ymgysylltu a Chyflenwi Llywodraeth Cymru i ddarparu cynnwys a diweddarau cynnwys y wefan yng nghyd-destun y rhaglen hon.

Mae'r Cleient yn ceisio sicrhau buddion cymunedol ychwanegol o'r gweithgarwch o fewn y contract hwn. Dylai ymgeiswyr ystyried darparu lleoliadau profiad gwaith a chyfleoedd mentora yn ystod oes y contract hwn. Bydd adolygu buddiannau cymunedol ychwanegol yn rhan o bob cyfarfod rheoli contract rhwng y cleient a'r contractwr.

Ymarferiad mapio/dadansoddiad

Dylai ceisiadau gynnwys ymarferiad mapio/dadansoddiad manwl o'r ardaloedd y cynigir gweithredu ynddynt. Dylai'r dadansoddiadau ymdrin â'r cwestiynau canlynol fesul ardal;

- Beth yw'r prif heriau a'r materion sydd angen ymdrin â nhw yn y maes hwn yn yr ardal?
- Ar ba sail yr ydych wedi dod i gasgliad ynglŷn â'r heriau/materion uchod? (rhesymeg, ffynonellau ymchwil/data ayb).
- Sut byddwch yn mynd ati i fynd i'r afael a'r heriau yma?
- Beth yw'r ddarpariaeth bresennol yn y maes hwn yn yr ardal?
- Sut byddwch yn cydweithio â phartneriaid yn yr ardal i gyflawni amcanion y cynllun hwn a diwallu anghenion teuluoedd yr ardal?
- Nodwch y canlyniadau dymunol ar gyfer pob ardal.

Dylai ymgeiswyr ddarparu gwybodaeth ynglŷn â pha ffynonellau data/ymchwil neu werthuso y defnyddiwyd i gwblhau'r ymarferiad mapio yn ogystal â nodi unrhyw ddulliau ymgynghori a ddefnyddiwyd. Mae'r ymarferiad hwn wedi ei gynnwys yn y meini prawf.

1. Meini Prawf ar gyfer Gwerthuso'r Contractau a Ddyfernir

Caiff y contract ei ddyfarnu i'r dyfynbris sydd fwyaf manteisiol yn economaidd o safbwynt gwerth am arian ar sail y meini prawf canlynol. Maent wedi'u rhestru yn nhrefn eu pwysigrwydd, gan gynnwys y pwysoliad sy'n berthnasol i bob un o'r meini prawf yn unigol.

Bydd bob maen prawf yn cael eu sgorio gan ddefnyddio'r tabl sgorio gwerthuso a gyhoeddwyd fel atodiad i'r GID electronig a ddarperir yn y canllawiau gwerthuso yn atodiad 1 y fanyleb.

Meini prawf gwerthuso	Pwysoliad
Cost fel y darperir yn yr atodlen priso a gwblhawyd	30%
Gan dynnu ar eich profiad o weithio gyda rhieni a theuluoedd disgrifiwch y ffordd y bydd hyn yn galluogi'r cleient i fodloni gofynion y prosiect.	15%
Darparu tystiolaeth o ddefnyddio a dadansoddi ymchwil a data gan amlinellu sut y byddwch yn ei ddefnyddio er mwyn llywio cyfeiriad/blaenoriaethau'r gwaith hwn.	20%
Profiad o ymgyrchoedd neu ddefnyddio technegau newid ymddygiad a disgrifiwch eich dull gwaith o ran yr ymgyrch.	10%
Profiad o hyrwyddo trosglwyddiad iaith/manteision y Gymraeg a/neu addysg cyfrwng Cymraeg. Sut ydych yn cynnig hyrwyddo negeseuon cynllun Cymraeg i Blant.	10%
Dull o sicrhau ansawdd a rheoli prosiectau. Disgrifiwch eich dulliau gwerthuso a sut y byddwch yn sicrhau bod terfynau amser yn cael eu bodloni.	15%

2. Amserlen Ddigwyddiadau

Mae'r Cleient wedi llunio amserlen ddigwyddiadau a fydd yn sicrhau bod y gwerthuso yn digwydd mewn da bryd. Rhaid cytuno ar unrhyw amrywiadau i'r cerrig milltir hyn, ymlaen llaw, gyda'r Cleient a rhaid i Reolwr y Contract eu cadarnhau'n ysgrifenedig.

3. Hyd y Contract

Dyddiad Dechrau: 1 Ebrill 2016

Hyd y Contract: 2 flynedd

Dyddiad Dod i Ben: 31 Mawrth 2018

Hyd yr Estyniad: posibilrwydd o ymestyn am flwyddyn arall hyd at 31 Mawrth 2019.

4. Y Gymraeg a Chyfieithu

- a. Gofynion y Cynllun Iaith Gymraeg

Bydd gofyn i'r contractwr llwyddiannus sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir trwy'r contract hwn yn cydymffurfio â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, a Chynllun Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru. Pan fydd yn ofynnol i Weinidogion Cymru gydymffurfio â Safonau newydd y Gymraeg, dylai contractwyr sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir trwy'r contract hwn yn cydymffurfio â'r safonau hynny. Byddwn yn gwybod y dyddiad hwnnw ar ôl i ni gael hysbysiad cydymffurfio gan Gomisiynydd y Gymraeg, ond rydym yn disgwyl y bydd ar ddechrau 2016. Bydd cydymffurfio â'r safonau yna'n disodli'r angen i gydymffurfio â'r Cynllun Iaith Gymraeg. Dylai'r Contractwr nodi'r gofyniad i sicrhau bod y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal.

Mae'r gofynion o ran iaith a chyfieithu wedi'u trafod yn y paragraffau blaenorol. Dylai unrhyw weithgaredd arall nad yw wedi'i nodi uchod ac sy'n berthnasol i'r contract gydymffurfio ag ymrwymïadau'r Cynllun.

b. Cyfraddau Cyfieithu

Cyfieithu i'r Gymraeg	£83 (fesul 1000 o eiriau)
Cyfieithu i'r Saesneg	£62 (fesul 1000 o eiriau)
Prawf ddarllen	£40 (cyfradd fesul awr)

5. Sefyllfa Ariannol ac Adnoddau

Mae'r Cleient yn dymuno sicrhau bod sefyllfa ariannol cyflenwyr gwasanaethau yn gadarn a bod yr adnoddau angenrheidiol ganddynt i fodloni'r ymrwymïadau dros gyfnod y contract. Gall hyn gynnwys (lle bo'n briodol) ystyried lefel yr ymrwymïadau gwaith sydd gennych eisoes ac effaith bosibl dyfarnu contract ar yr adnoddau.

Wrth benderfynu tendro am gontract, dylech hefyd fod yn ymwybodol ac ystyried y risg o fod yn orddibynnol ar waith y Cleient neu, yn wir, unrhyw gwsmer. Wrth wneud hynny, dylech hefyd ystyried unrhyw enillion o waith arall a wneir ar ran y Cleient yn ogystal ag enillion posibl o'r contract hwn.

6. Rhyddid Gwybodaeth

Mae'r Cleient wedi ymrwymo i lywodraeth agored ac mae'n gweithredu o dan God Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth i fodloni ei ymrwymïadau o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae'n bosibl y bydd yn rhaid datgelu unrhyw wybodaeth a gyflwynir gennych mewn cysylltiad â'r tendr hwn mewn ymateb i gais o dan y Ddeddf. Os credwch fod unrhyw wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn eich tendr yn sensitif yn fasnachol, nodwch pa wybodaeth sydd dan sylw gan egluro (yn fras) pa niwed a all ddigwydd wrth ddatgelu'r wybodaeth os daw cais i law i wneud hynny, a'r cyfnod amser lle mae'r sensitifrwydd hwnnw'n berthnasol. Dylech fod yn ymwybodol, hyd yn oed pan fyddwch wedi nodi bod gwybodaeth yn sensitif yn fasnachol, mae'n bosibl y bydd yn ofynnol i ni ei datgelu o dan y Ddeddf os daw cais i law.

Byddwn yn ymgynghori â chi os daw cais i law i ddatgelu unrhyw wybodaeth yr ydych wedi nodi ei bod yn sensitif yn fasnachol.

7. Datganiad amgylcheddol

Mae'r Cleient wedi ymrwymo i leihau'r effaith a gaiff ei waith o ddydd i ddydd ar yr amgylchedd ac fe anogir contractwyr i fabwysiadu agwedd ragweithiol tuag at yr amgylchedd, gyda'r nod o leihau niwed i'r amgylchedd.

Dylai ffactorau i'w hystyried gynnwys meysydd megis:

- Mabwysiadu system rheoli'r amgylchedd sy'n cynnwys canolbwyntio ar gael gwared ar wastraff a deunyddiau pecynnu
- Defnyddio ynni a dŵr yn fwy effeithlon
- Dechrau sicrhau bod cynaliadwyedd yn rhan annatod o gyflenwi nwyddau a gwasanaethau i'r Cleient
- Defnyddio papur wedi'i ailgylchu sy'n cynnwys gwastraff defnyddwyr yn unig ar gyfer gwaith argraffu nad yw'n arbenigol ei natur lle bynnag y bo hynny'n bosibl
- Lleihau allyriadau carbon deuocsid o safbwynt teithio wrth gynnal busnes drwy gynyddu'r defnydd a wneir o fideo-gynadledda ac annog defnydd o gerbydau allyriadau isel
- Meithrin diwylliant gwaith sy'n eco-gyfeillgar drwy hyfforddiant a chyfathrebu o'r radd flaenaf â staff

Tra bo'r contractwr ar y safle, dylai fod yn ymwybodol o Ddatganiad Polisi Amgylcheddol y Cleient gan fynd ati i ymlynu wrtho. Bydd copi o'r Datganiad ar gael i chi ymlaen llaw neu wrth i chi gyrraedd.

8. Monitro

8.1 Swyddog Cyswllt y Cleient

Rheolwr y Contract ar gyfer y Cleient fydd Nerys Howells.

Rheolwr y Contract fydd swyddog cyswllt y Contractwr dros gyfnod y contract. Gall gwrdd ag un o gynrychiolwyr penodedig y Contractwr yn ôl y galw i drafod unrhyw faterion a allai fod wedi codi wrth ddarparu'r gwasanaeth.

8.2 Personél y Contractwr

Dylai'r sawl sy'n tendro nodi enwau'r personél fydd yn delio â'r contract, eu statws yn y sefydliad a'u profiad blaenorol o ddelio â chontractau tebyg. Dylai'r sawl sy'n tendro hefyd ddarparu manylion y swyddog cyswllt a enwebir.

8.3 Os na fydd y contractwr yn cydymffurfio â'r Fanyleb, dilynrir y gweithdrefnau canlynol:

- rhoi gwybod am y gŵyn a'r gofyniad i gydymffurfio;
- rhoi gwybod am arferion annerbyniol a/neu ddiffyg cydymffurfio sylweddol â Manyleb y gwasanaethau;
- cyfeirio at amodau'r contract.

9. Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) – TUPE

- a) Gallai newid Contractwr effeithio ar y gweithwyr sy'n cael eu cyflogi gan y contractwr sy'n gyfrifol am ddarparu'r gwasanaethau o dan y contract cyfredol. Felly cynghorir y sawl sy'n tendro y bydd angen iddo ystyried risg Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 2006 (TUPE) wrth drosglwyddo gwaith.
- b) Mae'r sawl sy'n tendro yn gyfrifol am gael cyngor ar eu cost eu hunain ar roi'r TUPE ar waith wrth ddarparu'r Gwasanaethau gofynnol.
- c) Bydd y sawl sy'n tendro yn gyfrifol am sicrhau ei fod yn meddu ar, trwy gynnal ei arsylwadau a'i ymholiadau annibynnol ei hun, yr wybodaeth ddiweddaraf a'i fod yn fodlon o ran natur, cwmpas ac ymarferoldeb darparu'r Gwasanaethau a'r gost, y risgiau (gan gynnwys risgiau'r TUPE), hapddigwyddiadau neu amgylchiadau neu faterion eraill a allai effeithio ar y tendr mewn unrhyw ffordd.
- d) Noder na all y Cleient gynghori ar yr agwedd hon.

10. Costau Paratoi'r Cais

Bydd pob Ymgeisydd ei hun yn gyfrifol am yr holl gostau wrth baratoi a chyflwyno'i Gais hyd at a chan gynnwys Gweinidogion Cymru yn dyfarnu unrhyw gontract. Ystyrir y bydd hyn hefyd yn cynnwys costau unrhyw gyfarfodydd cyn neu ar ôl rhoi'r dyfarniad i'r Ymgeisydd ac ymweld â safleoedd. Ni fydd Gweinidogion Cymru mewn unrhyw amgylchiadau yn gyfrifol nac yn atebol dros unrhyw gostau o'r fath waeth sut y cynhelir y broses gais na'i chanlyniad, ac yn hyn o beth, ni fydd Gweinidogion Cymru yn atebol i'r Ymgeisydd.

11. Taliadau

Caiff taliadau eu gwneud yn chwarterol.


A chyn pen 30 diwrnod o dderbyn anfoneb sydd wedi'i chyflwyno'n gywir. Rhaid i anfonebau gynnwys dadansoddiad llawn o'r costau ag iddynt gysylltiad clir â'r tendr a gyflwynwyd gan y cwmni llwyddiannus.

12. Diogelwch

- 12.1 Dylai'r contractwr llwyddiannus sicrhau bod gwiriadau perthnasol y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DSB) wedi'u cynnal ar unrhyw bersonél sy'n debygol o ddod i gysylltiad â phlant, pobl ifanc neu oedolion agored i niwed dros gyfnod y contract hwn [O.N. nid oes angen gwiriadau DBS ar gyfer unigolion sy'n cael mynediad at wybodaeth yn hytrach na chael cyswllt wyneb yn wyneb]. Wedi i'r gwiriadau gael eu cynnal a chyn unrhyw gyswllt, dylid cyflwyno tystiolaeth o hynny i'r Cleient.

12.2 Yn ogystal ag 12.1, bydd angen i'r sawl sy'n tendro ddatrys sut y ceir cydsyniad deallus gan blant/pobl ifanc/oedolion agored i niwed a'u rhieni/gofalwyr a sut y ceir caniatâd mewn perthynas â mynediad gan sefydliadau statudol a gwirfoddol (os yn briodol). Rhaid i'r sawl sy'n tendro hefyd amlinellu protocol priodol ar gyfer datgelu gwybodaeth a gafwyd yn ystod cynnal y gwaith sy'n dangos y gallai plentyn/person ifanc/oedolyn agored i niwed fod mewn perygl. Dylai'r protocol fod yn unol â gweithdrefnau'r Pwyllgor Ardal Amddiffyn Plant Lleol/Bwrdd Diogelu Plant Lleol ar gyfer yr ardal y mae'r plentyn/person ifanc yn byw ynddi. Dylai'r protocol nodi, lle ceir unrhyw bryderon bod plentyn/person ifanc/oedolyn agored i niwed mewn perygl, neu y gallai fod mewn perygl, y caiff yr adran gwasanaethau cymdeithasol neu'r heddlu lleol wybod am y pryderon hynny ar unwaith, ac y caiff camau dilynol ysgrifenedig eu cymryd.

12.3 Unwaith y bydd y contract yn cael ei ddyfarnu bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal trafodaethau i benderfynu pwy sy'n rheolwr data a phrosesydd data. Os penderfynir bod Llywodraeth Cymru yn rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol i gael ei gasglu, byddwn yn cyhoeddi Llythyr Agweddau Diogelwch i ddisgrifio'r mesurau diogelwch wybodaeth y mae'n rhaid eu cymhwyso i ddiogelu'r data. Gweler enghraifft o'r llythyr hyn isod. Bydd hefyd yn ofynnol i'r gofyniad am ardystiad hanfodion seiber os oes gwybodaeth sensitif yn cael ei brosesu yn electronig.



13. Newid y Fanyleb

Mae'r fanyleb hon yn nodi gofyniad gwasanaeth lefel uchel y Cleient. Yn ystod y contract, bydd y gofynion hyn yn cael eu mireinio trwy drafod a chytuno rhwng y ddau barti, â'r bwriad o gyflawni'r gwerth gorau am arian am gynnyrch o ansawdd. Bydd unrhyw newidiadau i'r Fanyleb yn cael eu gweithredu drwy anfon y diwygiadau ysgrifenedig i bawb y bydd y newidiadau hynny yn effeithio arnynt.

14. Amodau'r Contract ar gyfer gweithredu'r rhaglen hwn.

Bydd Amodau'r Contract ar gyfer Gwasanaethau a gyhoeddwyd yn yr adran atodiadau y tendr electronig yn gymwys mewn perthynas â'r contract hwn. Rhaid i'r Contractwr roi sylw i'r Amodau hyn.

Atodiad 1 : Cyfarwyddiadau i'r sawl sy'n tendro

Cyffredinol

a) Mae'r cyfarwyddiadau hyn wedi'u cynllunio i sicrhau bod pawb sy'n tendro yn cael ystyriaeth gyfartal a theg. Mae'n bwysig felly eich bod yn darparu'r holl wybodaeth y gofynnwyd amdani yn y fformat a'r drefn benodol.

b) Bydd y sawl sy'n tendro yn sicrhau bod pob is-gontractwr, aelod o'r consortiwm ac ymgynghorydd yn cadw at delerau cyfarwyddiadau ac amodau'r tendr hwn.

Canllawiau ar Gwblhau

Cwblhau Gwahoddiad i Dendro

Mae'r broses gaffael yn cael ei chynnal trwy gwblhau a gwerthuso un cais . Mae'r Gwahoddiad i Dendro wedi ei rannu'n ddwy adran, sef:

Rhan A - Cymhwyster

a

Rhan B - Eich Cais.

Mae Rhan B yn cynnwys cynnig technegol a chynnig masnachol ('Rhestr Pris').

Bydd y tendrau a gyflwynir yn cael eu gwerthuso yn y lle cyntaf ar sail y ffaith eu bod yn gyflawn ac yn cydymffurfio â'r gofynion gorfodol. Bydd methu â chydymffurfio â'r cyfarwyddiadau neu ddarparu'r wybodaeth y gofynnir amdani yn golygu bod y tendr yn annilys ac ni chaiff ei ystyried ymhellach.

Rhan A

Mae cwestiynau Rhan A - Cymhwyster wedi eu lleoli o fewn yr 'Amlen Gymhwyster'. Gallwch gael mynediad at yr amlen o fewn y prosiect hwn ar y wefan BravoSolutions, fel y dangosir isod.



Mae Rhan A yn cynnwys yn gyffredinol:

- i. Canllawiau i gynigwyr am lenwi a dychwelyd y GID;
- ii . Manylion ynghylch Rhyddid Gwybodaeth;
- iii . Tystysgrif Dendro;
- iv . Datganiad ynghylch Tendr;
- v . Is-gontractwyr a Chonsortia;
- vi . Derbynioldeb Cyflenwr;

- vii .Sefyllfa Economaidd / Ariannol;
- viii . Capasiti a Gallu;
- ix . Rheoli;
- x . Cyfle Cyfartal;
- xi . Cynaliadwyedd;

- xii . Iechyd a Diogelwch;


Mae'n rhaid i gwestiynau gorfodol cael eu cwblhau ym mhob un o'r adrannau uchod drwy lenwi'r blychau a ddarperir.

Dylai'r sawl sy'n tendro nodi y gallai methiant i ateb cwestiwn perthnasol neu i ddarparu unrhyw wybodaeth sydd ei hangen olygu na fydd eu tendr bellach yn rhan o'r broses.

Ni fydd cyflenwyr nad ydynt yn bodloni gofynion Rhan A yn cael eu hystyried ar gyfer Rhan B ; felly mae'n hanfodol eich bod yn darparu'r holl wybodaeth y gofynnir amdani yn gywir.

Rhan B

Yn dilyn gwerthusiad o Ran A, bydd yr ymatebion hynny a fydd yn mynd drwyddo i Ran B yn cael eu gwerthuso a'u sgorio er mwyn pennu'r Tendir Mwyaf Manteisiol yn Economaidd, fel y dangosir isod:



Bydd Rhan B yn nodi cynigion y sawl sy'n tendro o safbwynt cyflenwi'r contract. Mae'n rhaid i'r sawl a allai dendro nodi y bydd methu ag ateb cwestiwn perthnasol neu ddarparu unrhyw wybodaeth sy'n ofynnol olygu bod y cwestiwn yn cael sgôr o sero neu fethu yn achos cwestiynau pasio / methu ac ni fydd y cyflenwr bellach yn rhan o'r broses.

Bydd agweddau allweddol ar Ran B yn cynnwys (ar gyfer pob un sy'n tendro):


- Cynnig technegol: 70%
- Cynnig masnachol ('Rhestr Pris'): 30%

Bydd Rhan B yn gwerthuso ymatebion cyflenwyr i gyflawni'r gofynion. Bydd y sawl sy'n tendro yn darparu'r wybodaeth hon drwy gwblhau'r Cynnig Technegol a'r Cynnig Masnachol ('Rhestr Pris'):

Cynnig Technegol (70%):

- Ansawdd - rhaid i gynigwyr ddarparu ymatebion i nifer o gwestiynau. Bydd yr ymatebion hyn yn cael eu gwerthuso er mwyn darparu sgôr ar gyfer y Meini Prawf Ansawdd. Mae cwblhau'r adran hon yn orfodol.

Mae'r cwestiynau Technegol / Ansawdd wedi eu lleoli o fewn yr 'Amlen Dechnegol'. Gallwch gael mynediad at yr amlen o fewn y prosiect hwn ar y wefan BravoSolutions, fel y dangosir isod:



Bydd y gwerthusiad technegol yn seiliedig ar ymatebion cynigwyr i'r cwestiynau a restrir yn yr Amlen Dechnegol.

Dylai'r wybodaeth hon gael ei lanlwytho ar ffurf dogfen Microsoft Word. Os bydd cynigwyr yn dymuno lanlwytho gwybodaeth ychwanegol dylid cyfeirio at hyn yn yr ymateb i'r cwestiwn hwn a dylid lanlwytho'r wybodaeth i adran atodiadau cyffredinol y GID hwn o fewn y porth e-dendro.

Ni fydd gwefannau/dolenni a /neu lyfrynnau generig/gwerthu yn cael eu hystyried na'u gwerthuso.

Bydd yr ymatebion i'r cwestiynau uchod yn cael eu gwerthuso'n unol â'r tabl canlynol:

Gallu	Tystiolaeth	Sylwadau	Sgôr (%)
Mae'n debyg y bydd y cynigiwr yn gallu bodloni anghenion yr Awdurdod.	Mae'r dystiolaeth yn gyson, yn gynhwysfawr, yn gryf, yn uniongyrchol berthnasol i bob agwedd ar y prosiect ac yn hynod gredadwy (gan fod ffynonellau annibynnol yn ei chadarnhau, os oes modd.)	Hyder Llwyd	100
	Mae'r dystiolaeth yn ddigonol (ar lefel ansoddol), yn argyhoeddi, ac yn gredadwy.	Hyder	80
Risg fach na fydd yr ymgeisydd yn gallu bodloni anghenion yr Awdurdod.	Mae mân fylchau yn y dystiolaeth, neu nid yw'n argyhoeddi'n llwyr, nid yw'n hollol gredadwy neu nid yw'n hollol berthnasol i'r prosiect.	Mân Bryderon	60
Risg gymedrol na fydd yr ymgeisydd yn gallu bodloni anghenion yr Awdurdod.	Mae bylchau cymedrol yn y dystiolaeth, ac nid yw'n argyhoeddi	Pryderon Cymedrol	40
Risg sylweddol na fydd yr ymgeisydd yn gallu bodloni anghenion yr Awdurdod.	Mae bylchau mawr yn y dystiolaeth, nid yw sawl agwedd arni'n argyhoeddi, nid yw'n gredadwy, neu mae'n amherthnasol i'r prosiect i raddau helaeth.	Pryderon Mawr	20
Ni fydd y cynigiwr yn gallu bodloni anghenion yr Awdurdod.	Dim tystiolaeth neu dystiolaeth gamarweiniol.	Annerbyniol	0

TABL SGORIO - GWERTHUSO ANSAWDD

Dylid ateb pob cwestiwn drwy gwblhau'r blychau a ddarperir / lanlwytho dogfennau lle nodir hynny o fewn yr Amlen Dechnegol.

Cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw sicrhau bod yr holl wybodaeth sy'n ofynnol yn cael ei chyflenwi a'i bod yn gywir. Mae'n rhaid hysbysu Llywodraeth Cymru ynghylch unrhyw newidiadau a allai effeithio ar unrhyw un o'r atebion sydd wedi'u cynnwys yn yr holiadur hwn cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

Cynnig masnachol (30%):

Mae'n rhaid i gynigwyr roi manylion am eu rhestr pris, a leolir o fewn yr 'Amlen Fasnachol'. Gallwch gael mynediad at yr amlen o fewn y prosiect hwn ar y wefan BravoSolutions, fel y dangosir isod.



Mae cwblhau'r holl elfennau prisio yn orfodol. Ceir cyfarwyddiadau ar sut i lenwi'r rhestr brisio o fewn yr Amlen Fasnachol.

Bydd pob pris a gyflwynir gan bob cynigiwr yn cael ei werthuso yn erbyn y prisiau eraill a gyflwynwyd. Y pris isaf a gyflwynwyd fydd yn sgorio uchaf o safbwynt y pwysoliad pwyntiau.

Byddai'r pris isaf, felly, yn derbyn y 10 marc llawn sydd ar gael. Byddai pob cynigiwr eraill yn derbyn canran o'r pwysiad llawn, yn seiliedig ar y pris a gyflwynwyd ganddynt.

Pris Isaf

Pris Isaf

Pris *wedi'i luosi â'r pwysoliad = **Sgôr wedi'i phwysoli**

Ceir enghraifft isod (sylwch mai enghreifftiau yn unig yw'r prisiau a nodir isod):

£240 yw'r sgôr isaf sy'n cael ei chyflwyno, gan ymgeisydd B. £250 yw'r ail sgôr isaf, gan ymgeisydd A, a £350 yw pris ymgeisydd C.

	<i>Pris a Gyflwynwyd</i>	<i>x pwysoliad</i>	<i>Sgôr wedi'i phwysoli</i>
<i>Pris isaf =</i> <i>Cwmni B</i>	<u>240</u> 240	<i>x 10%</i> <i>(pwysoliad)</i>	= 10
<i>Ail isaf</i> <i>Cwmni A</i>	<u>240</u> 250	<i>x 10%</i> <i>(pwysoliad)</i>	= 9.6
<i>Trydydd isaf</i> <i>Cwmni C</i>	<u>240</u> 350	<i>x 10%</i> <i>(pwysoliad)</i>	= 6.9

Caiff y broses uchod ei chwblhau ar gyfer pob elfen fasnachol.

Caiff y sgoriau sydd wedi'u pwysoli ar gyfer pob cynigiwr eu cyfuno er mwyn creu cyfanswm sgôr ar gyfer pob cynigiwr.

Yna, caiff y cyfanswm sgôr ei ychwanegu at y sgoriau Technegol i gynhyrchu sgôr gyffredinol ar gyfer pob cynigiwr.